

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 390

**Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Diwygio Rheoliadau 2010

- 2.—(1) Mae Rheoliadau 2010 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
(2) Yn rheoliad 2, hepgorer paragraff (2).
(3) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

“Dehongli

- 2A.—(1) Wrth ddehongli Cyfarwyddeb [2008/50/EC](#) at ddibenion y Rheoliadau hyn—
- (a) mae Erthygl 3(f) i'w darllen fel pe bai “Member States” wedi ei roi yn lle “other Member States”;
 - (b) yn Atodiad 1—
 - (i) yn adran A, mae troednodyn (1) i'w ddarllen fel pe bai—
 - (aa) “the Welsh Ministers” wedi ei roi yn lle “Member States”;
 - (bb) y geiriau “to the Commission” wedi eu hepgor;
 - (ii) mae adran C i'w darllen fel pe bai—
 - (aa) “designated” wedi ei roi yn lle “harmonised” ym mhob lle y mae'r gair hwnnw digwydd;
 - (bb) ym mhwynt (i), y mae'r geiriau “pursuant to Article 6 and 9” wedi eu hepgor;
 - (cc) ym mhwynt (iii), y mae'r geiriau o “and that institutions” hyd at y diwedd wedi eu hepgor;
 - (dd) ym mhwynt (iv), yn y frawddeg gyntaf, y mae'r geiriau o “by the appropriate” hyd at “Article 3” wedi eu hepgor;
 - (ee) ym mhwynt (iv), yn y frawddeg gyntaf, y mae'r geiriau o “the reference to” hyd at “the European Union” wedi eu hepgor;
 - (ff) ym mhwynt (iv), yn yr ail frawddeg, y mae'r geiriau o “for the coordination” hyd at “be responsible” wedi eu hepgor;
 - (gg) pwyntiau (v) a (vi) wedi eu hepgor;
 - (hh) ym mharagraff 2, bod “All data” wedi ei roi yn lle “All reported data under Article 27”;
 - (c) yn Atodiad 2, yn adran B, mae'r ail is-baragraff i'w ddarllen fel pe bai “the Welsh Ministers” wedi ei roi yn lle “Member States”;
 - (d) yn Atodiad 3, yn adran A, mae paragraff (2)(b) i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau “in accordance with Article 2(1)” wedi eu hepgor;

- (e) yn Atodiad 5, yn adran A, mae troednodiadau (1) a (2) i'r tabl i'w darllen fel pe bai "the United Kingdom" wedi ei roi yn lle "a Member State" ym mhob lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd;
- (f) yn Atodiad 6, mae adran B i'w darllen fel pe bai—
- (i) ym mhwynt 1—
 - (aa) "The Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "A Member State";
 - (bb) "they" wedi ei roi yn lle "it";
 - (cc) "the Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "the Member State concerned";
 - (ii) pwyntiau 2, 3 a 4 wedi eu hepgor;
- (g) yn Atodiad 8, yn adran A, mae'r paragraff ar ôl y tabl i'w ddarllen fel pe bai "in so far as it forms part of retained EU law" wedi ei fewnosod ar ôl y geiriau "in the Community".
- (2) Wrth ddehongli Cyfarwyddeb 2004/107/EC at ddibenion y Rheoliadau hyn—
- (a) yn Atodiad 2, yn adran 2, mae'r ail baragraff i'w ddarllen fel pe bai "the Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "Member States";
 - (b) yn Atodiad 3, yn adran 4, mae pwynt (b) i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "as defined by Article 2(11) of Directive 96/61/EC" wedi eu hepgor; ac
 - (c) yn Atodiad 4, mae adran 1 i'w darllen fel pe bai "the Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "Member State" ym mhob lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd;
 - (d) mae Atodiad 5 i'w ddarllen fel pe bai—
 - (i) yn adran 1, yn yr ail baragraff, "The Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "A Member State";
 - (ii) yn adran 2—
 - (aa) yn y paragraff cyntaf, "the Welsh Ministers may" wedi ei roi yn lle "Member States are allowed to";
 - (bb) yn yr ail baragraff, "The Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "A Member State";
 - (iii) yn adran 3, yn yr ail baragraff, "The Welsh Ministers" wedi ei roi yn lle "A Member State";
 - (iv) Adran 5 wedi ei hepgor."
- (4) Yn lle rheoliad 13(4) rhodder —
- "(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod gwerth terfyn wedi ei groesi am reswm sydd i'w briodoli i ffynonellau naturiol, ni ystyrir bod y gwerth terfyn hwnnw wedi ei groesi at ddibenion y Rheoliadau hyn.
- (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod gwerth terfyn wedi ei groesi am reswm sydd i'w briodoli i ffynonellau naturiol yn unol â pharagraff (4), rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth, ar gyfer y parthau a'r crynodaau perthnasol, sy'n dangos y gellir priodoli'r gormodiannau i ffynonellau naturiol."
- (5) Yn rheoliad 14—
- (a) ym mharagraff (5)(b) yn lle "Chyfarwyddeb 2008/1/EC" rhodder "Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(1)";

- (b) ym mharagraff (6), yn lle “ag Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2001/81/EC” rhodder “â rheoliad 9 o Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018(2)”;
 - (c) hepgorer paragraff (7).
- (6) Yn rheoliad 15, mae paragraff (2) wedi ei hepgor.
- (7) Yn rheoliad 20—
- (a) ym mharagraff (2), hepgorer “yn unol ag Erthygl 21 o Gyfarwyddeb 2008/50/EC,”;
 - (b) yn lle paragraff (7) rhodder—
 - “(7) Pa bryd bynnag y bo’n bosibl, rhaid i gynlluniau ansawdd aer fod yn gyson ag—
 - (a) y Cynllun Cenedlaethol Trosiannol, y mae iddo’r ystyr a roddir i “Transitional National Plan” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Peiriannau Mewndanio Mawr (Cynllun Cenedlaethol Trosiannol) 2015(3);
 - (b) rhaglen rheoli llygredd aer genedlaethol a lunnir yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018;
 - (c) cynllun gweithredu a lunnir yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006(4).”
- (8) Yn rheoliad 23(3), ar ôl “y Gymuned Ewropeaidd” mewnosoder “i’r graddau y mae wedi ei throsi i’r gyfraith sy’n gymwys yng Nghymru”.

(2) [O.S. 2018/129](#).

(3) [O.S. 2015/1973](#), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) [O.S. 2006/2629 \(Cy.225\)](#), fel y’i diwygiwyd gan [O.S. 2018/1208 \(Cy. 245\)](#).